“Daeth Iesu atynt a chyffwrdd â hwy gan ddweud, ‘Codwch, a pheidiwch ag ofni.’”
(Mathew 17:7)

Dyma hanes rhyfeddol y Gweddnewidiad, oedd wedi gadael Pedr, Iago ac Ioan ar eu hwynebau mewn ofn mawr. Gadewch i ni weld beth oedd wedi digwydd i greu y fath arswyd ynddynt.

Cefndir

Mae hanes y Gweddnewidiad yn dilyn hanes Iesu a’i ddisgyblion yn Cesarea Philipi. Bryd hynny, roedd wedi dangos i’w ddisgyblion beth oedd natur ei waith fel Meseia, sef dioddef ac atgyfodi. Roedd yn bendefynol o wrthod temtasiwn Satan - yng ngeiriau Pedr – i osgoi y groes. Roedd wedi dangos yn glir mai llwybr y groes oedd o’i flaen ef a’i ddilynwyr hefyd. Ar fynydd y Gweddnewidiad mae Duw y Tad yn ymateb i benderfyniad y Mab mewn ffordd arbennig iawn.

Ei amgylchynu

Disgleiriodd yr Arglwydd, ei wyneb a’i ddillad, â disgleirdeb llachar iawn. Mae Mathew yn disgrifio hyn fel yr haul a goleuni. Mae’n amhosib edrych at yr haul heb gysgodi ein llygaid, a’r un yw ein hymateb pan ddaw golau cryf i’n hwynebau. Disgleiriodd Iesu â gogoniant nefol a gogoniant dwyfol. Wrth ddod i’n daear, roedd Crist wedi gadael gogoniant y nef. Wrth wisgo cnawd, yr oedd ei ogoniant dwyfol wedi ei orchuddio.

Roedd y Tad nefol, trwy’r Ysbryd Glân, yn ei atgoffa o’r gogoniant nefol oedd yn ei aros ar ôl iddo gwblhau ei waith achubol ar fryn Calfaria.

“Er mwyn y llawenydd oedd o’i flaen, fe oddefodd ef y groes heb ddiffygio, gan ddiystyru gwarth, ac y mae wedi eistedd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw” (Heb. 12:2).

“Yn awr, O Dad, gogonedda di fyfi ger dy fron dy hun â’r gogoniant oedd i mi ger dy fron cyn bod y byd” (Ioan 17:5).

Ei annog

Yna fe ddarllenwn fod dau ymwelydd wedi ymddangos, sef Moses ac Elias. Pam y ddau yma? Roedd Moses yn cynrychioli y Gyfraith ac Elias yn cynrychioli’r proffwydi. Ys dywed yr emyn:

‘Darfu i Moses a’r proffwydi
ddweud amdano cyn ei ddod.’

Y Gyfraith. Roedd cyfraith Moses yn sôn am safon Duw ar ein cyfer. Safon na allem ei gyrraedd. Ond mae’r Gyfraith hefyd yn dangos bod modd i

ddyn gymodi â Duw trwy aberth dirprwyol. Gellid aberthu oen, bustach neu aderyn dros bechodau gwahanol er mwyn sicrhau maddeuant a chymod â Duw.

Dim ond act oedd hyn, symboliaeth. Nid gwaed anifail sydd yn gwneud iawn am bechod, ond gwaed Crist.

'Ni allai'r holl foroedd byth olchi fy mriw,
na gwaed y creaduriaid er amled eu rhyw;
ond gwaed y Meseia a'i gwella'n ddi-boen:
rhyfeddol yw rhinwedd marwolaeth yr Oen.' (Morgan Rhys)

Felly, roedd Moses yn siarad â Iesu ac yn ei annog i gwblhau ei waith fel Oen Duw, er mwyn tynnu ymaith bechodau'r byd.

Roedd y proffwydi wedi sôn am Feseia a fyddai'n dod â theyrnas fuddugoliaethus i fod; ond hefyd am Was yr Arglwydd, yr un a fyddai'n dioddef dros ei bobl: **"Ond archollwyd ef am ein troseddau ni, a'i ddryllio am ein camweddau ni; 'roedd pris ein heddwch ni arno ef, a thrwy ei gleisiau ef y cawsom ni iachâd"** (Es. 53:5).

Roedd Elias yn annog Iesu i fynd ymlaen i'r groes. Dywed Luc (9:31) fod y ddau **"yn siarad am ei ymadawiad, y weithred yr oedd i'w chyflawni yn Jerwsalem".**

Ei arddel

Yna daeth y llais o'r nef. Roedd y Tad yn falch o'i Fab sanctaidd. Roedd yn fodlon dangos ei falchder ohono i dri thyst dynol ar ben y mynydd sanctaidd. Dyma beth mae Pedr yn cyfeirio ato yn ei ail epistol: **"Yr oeddem yno pan roddwyd iddo anrhydedd a gogoniant gan Dduw Dad"** (2 Pedr 1:17). Mae'r Tad yn dweud wrth y tri disgybl (a fyddai'n dweud wrth eraill yn nes ymlaen) pa mor annwyl yn ei olwg oedd y Mab, a'i fod yn ymhyfrydu ynddo.

Efallai ein bod ni fel tadau daearol yn swil o ddangos ein balchder yn ein plant ar brydiau, ac yn swil o'u canmol yn gyhoeddus o flaen eraill, a hwythau'n bresennol, ond does dim dwywaith nad yw ambell air o ddangos boddhad yn fodd i gadarnhau ein plant mewn ffordd arbennig iawn.

Roedd y Tad nefol yn awyddus i gadarnhau ei Fab ar ei lwybr i'r groes. Roedd yn iawn i wrthod apêl Satan i gymryd llwybr hawdd i'r gogoniant gwag a gynigiai. Roedd y llwybr mwy costus yma yn siŵr o arwain i wir ogoniant a mawredd maes o law.

Diolch am Waredwr a fu'n ffyddlon i'w genhadaeth nefol yn y byd, yn ffyddlon hyd at angau, er mwyn i ni gael bywyd tragwyddol.